

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister

Lledaenu Swyddi'r Cynulliad Dispersal of Assembly Jobs

Q12 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the dispersal of Assembly jobs into Ceredigion? OAQ0580(FIN)

C12 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ledaenu swyddi'r Cynulliad i Geredigion? OAQ0580(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): In February 2005 I announced the Cabinet's decision regarding posts to be located in the new offices in Aberystwyth and Llandudno Junction. Some 550 posts will be relocating into the building in Aberystwyth, of which approximately 150 will be transferring from Cardiff.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Ym mis Chwefror 2005, cyhoeddais benderfyniad y Cabinet ynghylch swyddi a gaiff eu lleoli yn y swyddfeydd newydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Caiff tua 550 o swyddi eu hadleoli i'r swyddfa yn Aberystwyth a bydd tua 150 o'r rhain yn swyddi a gaiff eu trosglwyddo o Gaerdydd.

Cyllideb Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Local Government and Public Services Budget

Q13 David Melding: Will the Minister make a statement on the overall budget allocation for the local government and public services portfolio? OAQ0594(FIN)

C13 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0594(FIN)

Sue Essex: The budget provision for the local government and public services portfolio in 2006-07 is £3.858 billion. This represents an 8.2 per cent increase over the 2005-06 provision.

Sue Essex: Y gyllideb a ddarperir ar gyfer y portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn 2006-07 yw £3.858 biliwn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 8.2 y cant o ran y ddarpariaeth ar gyfer 2005-06.

**Defnydd Cyffredinol o Fentrau Cyllid Preifat
Overall use of PFI**

Q14 Peter Black: Will the Minister make a statement on the overall use of PFI to further Assembly Government targets? OAQ0628(FIN)

C14 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd cyffredinol o fentrau cyllid preifat i wella targedau Llywodraeth y Cynulliad? OAQ0628(FIN)

Sue Essex: We are using the private finance initiative to take forward projects in various policy areas, including 11 local government PFI projects. There are also three hospitals and a number of minor schemes undertaken by NHS trusts, the Bute Avenue and Callaghan Square project and a section of the A55.

Sue Essex: Yr ydym yn defnyddio'r fenter cyllid preifat i ddatblygu prosiectau mewn sawl maes polisi, gan gynnwys 11 o brosiectau menter cyllid preifat llywodraeth leol. Mae hefyd dri ysbty a nifer o fân gynlluniau sydd gan ymddiriedolaethau'r GIG, prosiect Rhodfa Bute a Sgwâr Callaghan a rhan o'r A55.

**Cyllideb Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Education, Lifelong Learning and Skills Budget**

Q15 Lynne Neagle: What were the Welsh Assembly Government's priorities in determining the overall budget provision for the education, lifelong learning and skills portfolio for 2006-07? OAQ0617(FIN)

C15 Lynne Neagle: Beth oedd blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth bennu'r gyllideb gyffredinol i'w darparu ar gyfer y portffolio addysg, dysgu gydol oes a sgiliau ar gyfer 2006-07? (OAQ0617(FIN))

Sue Essex: The Government's priorities for setting the budgets for education, lifelong learning and skills for 2006-07 are set out in 'Wales: A Better Country'.

Sue Essex: Nodir blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer pennu'r cyllidebau ar gyfer yr adran addysg, dysgu gydol oes a sgiliau ar gyfer 2006-07 yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside**

**Ailgylchu Plastigau
Recycling Plastics**

Q11 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on recycling plastics in Mid and West Wales? OAQ0820(EPC)

C11 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailgylchu plastigau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0820(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): The Assembly Government's waste strategy promotes recycling of a wide range of materials, including plastics. Carmarthenshire, Ceredigion, Pembrokeshire and Powys collect plastic for recycling.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Mae strategaeth wastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo'r broses o ailgylchu amrywiaeth eang o ddeunyddiau, gan gynnwys plastigau. Mae sir Gaerfyrddin, Ceredigion, sir Benfro a Phowys yn casglu plastig i'w ailgylchu.

Economi Wledig Rural Economy

C12 Ieuan Wyn Jones: Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog parthed yr economi wledig ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ0839(EPC)

Q12 Ieuan Wyn Jones: What are the Minister's priorities regarding the rural economy for the next 12 months? OAQ0839(EPC)

Carwyn Jones: Mae fy mlaenoriaethau yn cynnwys adeiladu ar yr hyn mae'r cynllun datblygu gwledig presennol yn ei wneud i wella cystadleurwydd y sectorau amaethyddol a choedwigaeth, i wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac i feithrin gallu lleol ym maes cyflogaeth ac arallgyfeirio.

Carwyn Jones: My priorities are to build on the work of the current rural development plan to improve the competitiveness of the agricultural and forestry sectors, improve the environment and countryside, improve the quality of life in rural areas and build local capacity for employment and diversification

Dyfodol Tir Mynydd The Future of Tir Mynydd

C13 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda'r diwydiant amaethyddol parthed ei gynlluniau ar gyfer dyfodol Tir Mynydd? OAQ0840(EPC)

Q13 Rhodri Glyn Thomas: What recent discussions has the Minister had with the agricultural industry regarding his plans for the future of Tir Mynydd? OAQ0840(EPC)

Carwyn Jones: Rhwng 11 Ionawr a 10 Mawrth eleni, cynhaliais ymgynghoriad cyhoeddus ar drefniadau ar gyfer dyfodol Tir Mynydd. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac wedi hynny, yr wyf wedi cyfarfod sawl gwaith â chynrychiolwyr y diwydiant ffermio, yn fwyaf diweddar gydag NFU Cymru yr wythnos diwethaf.

Carwyn Jones: Between 11 January and 10 March this year I undertook a public consultation exercise on the future arrangements for Tir Mynydd. During the consultation period, and since, I have held several meetings with representatives of the farming industry, most recently with the NFU Cymru last week.

Cloddio am Nwy Methan Methane Gas Extraction

C14 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganllawiau cynllunio ym maes cloddio am nwy methan? OAQ0827(EPC)

Q14 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on planning guidance in relation to methane gas extraction? OAQ0827(EPC)

Carwyn Jones: Mae 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' yn amlinellu'r polisi cynllunio ar ddefnydd tir yng Nghymru mewn perthynas â chloddio am fwynau, gan gynnwys mwynau megis methan. Mae fframwaith yn y polisi hwn ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n dderbyniol o ran yr amgylchedd ac sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Carwyn Jones: 'Minerals Planning Policy Wales' sets out the land-use planning policy for Wales in relation to mineral extraction, including energy minerals such as methane. It provides the framework for sound decisions to be made in an environmentally acceptable way consistent with the principles of sustainable development.

**Safleoedd Tir Llwyd
Brownfield Sites**

C15 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer safleoedd tir llwyd? OAQ0817(EPC)

Q15 Owen John Thomas: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policy for brownfield sites? OAQ0817(EPC)

Carwyn Jones: Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddefnyddio tir llwyd i'w weld yn 'Polisi Cynllunio Cymru', 2002. Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw annog pobl i aildefnyddio tir llwyd lle bynnag y bo modd, yn hytrach na defnyddio safleoedd maes glas.

Carwyn Jones: The Welsh Assembly Government's policy on the use of brownfield land is contained in 'Planning Policy Wales', 2002. It is the Assembly Government's policy to encourage the re-use of brownfield land wherever possible, in preference to the use of greenfield land.